# CBAC TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

# Llwybr Gofal Plant

# Cwestiynau Cyffredin ar ôl Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Tachwedd 2021

**1. Pam mae asesiadau di-arholiad wedi cymryd lle gwaith cwrs yn y cymhwyster hwn?**

Ysgrifennwyd yr asesiadau di-arholiad ar gyfer y cymhwyster newydd hwn yn unol â Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru. Ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ynghylch y meini prawf drafft cyn iddynt gael eu cadarnhau ond, wedi eu cadarnhau, y rhain sy'n diffinio beth mae'n rhaid i ni ei wneud yn ein manyleb. Cawsom gyfraniad hefyd gan gynrychiolwyr Addysg Uwch wrth ysgrifennu'r asesiadau, ac roeddent yn fodlon eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a hefyd yn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol ***(gweler yr ymateb i gwestiwn 4 isod)***.

**2. Faint o oriau dysgu dan arweiniad a argymhellir ar gyfer y cymhwyster hwn?**

Gan fod hon yn fanyleb TAG UG a Safon Uwch, mae wedi'i llunio i gael ei chyflawni mewn 180 a 360 o oriau dysgu dan arweiniad yn ôl eu trefn. Mae Cymwysterau Cymru yn nodi mai cyfanswm amser y cymhwyster yw 250 a 500 awr ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch.

**3. Oes angen gwneud ymchwil yn yr ystafell ddosbarth?**

Na, caiff dysgwyr gwblhau ymchwil y tu allan i amser gwersi. Bydd hyn yn caniatáu i chi dreulio mwy o amser ar weithgareddau addysgu a dysgu eraill yn yr ystafell ddosbarth.

**4. Pam mae'r cynnwys mor wahanol i gymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol hen fanyleb CBAC?**

Mae cynnwys y cymhwyster newydd yn newydd sbon ac mae'n bodloni anghenion y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol; buom yn cydweithio'n agos iawn â hwy wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn. Roeddent yn teimlo bod yr hen gymhwyster yn hen-ffasiwn a nododd adolygiad Cymwysterau Cymru nad oedd yn addas i'r pwrpas mwyach. Canfu'r adolygiad fod angen i'r cwrs TAG newydd baratoi dysgwyr i wneud cynnydd o fewn y sectorau neu i addysg uwch neu gyflogaeth. Cafodd y cynnwys ei ddiffinio gan ofynion y meini prawf cymeradwyo, ac ymgynghorodd Cymwysterau Cymru yn eang ar y rhain, gan gynnwys gydag athrawon. Un o ganlyniadau'r adolygiad o'r sector oedd y diffyg arbenigwyr pwnc sy'n addysgu cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant mewn canolfannau, ac mae hyn yn rhywbeth roedd Cymwysterau Cymru yn gobeithio y gallai canolfannau ei unioni.Fodd bynnag, nid oes gennym awdurdodaeth dros y cymwysterau

sydd eu hangen ar athrawon i gyflwyno ein cymwysterau cyffredinol; mae hyn yn ôl disgresiwn pob canolfan. Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn bod llawer o athrawon profiadol o wahanol gefndiroedd wedi addysgu'r hen gymwysterau'n llwyddiannus, a'i bod yn bosibl nad ydynt mor hyderus â rhywfaint o'r cynnwys newydd, ond dyma lle gallai canolfannau ymgysylltu ag arbenigwyr yn y sector a allai fod yn awyddus i'w cefnogi i gyflenwi'r cymhwyster.

**5. Pam mae cynlluniau marcio'r asesiad di-arholiad a'r deunyddiau asesu enghreifftiol yn ymddangos yn benagored iawn?**

**Unedau asesiad di-arholiad** – mae'r meini prawf ar gyfer marcio'r asesiadau di-arholiad wedi'u llunio i fod yn berthnasol i amrediad eang o waith gan ddysgwyr, er mwyn peidio â chyfyngu ar yr hyn y caniateir i ddysgwyr ei wneud o fewn eu tasgau asesu di-arholiad, oherwydd, ar lefel TAG, rydym yn gobeithio gweld amrywiaeth o ddulliau.

**Unedau arholiad** – wrth inni fynd drwy gyfres fyw, byddwn yn gallu rhannu cynlluniau marcio manylach sydd wedi bod drwy gynadleddau ar gyfer yr unedau arholiad, ac wrth gwrs byddwn yn rhannu enghreifftiau byw â sail resymegol o ran pam y rhoddwyd marciau, yn ogystal ag adolygu'r unedau arholiad ar-lein.

**6. Nid yw'n ymddangos bod y marciau a roddwyd ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn cyfateb i'r marciau ar y papur arholiad;er enghraifft, mae'n ymddangos bod angen llawer o waith i ennill 6 - 8 marc ar yr asesiad di-arholiad o gymharu â'r un nifer o farciau ar bapur arholiad. Mae 32 marc mewn asesiad di-arholiad yn cymryd 10 awr o amser dan reolaeth yn ogystal ag amser ymchwilio ymlaen llaw, a'r papur arholiad yn rhoi 32 marc am ateb y bydd yn cymryd tua 32 munud i'r myfyriwr ei ysgrifennu. Sut mae hyn yn gymaradwy?**

Ni ellir cymharu asesiadau arholiad ac asesiadau di-arholiad fel hyn, gan ganolbwyntio ar amser. Mae hefyd yn bwysig ystyried pa sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n cael eu hasesu ym mhob uned a pha reolyddion sydd ar waith. O ystyried natur iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, nid ydym yn credu y byddai asesiad 100% mewn arholiad yn ddilys nac yn ddiddorol i ddysgwyr. Mae'r asesiadau wedi'u cynllunio fel ymateb i ofynion y meini prawf cymeradwyo. Hefyd, mae cwblhau dwy dasg asesiad di-arholiad yn rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr gyflawni rhywbeth. Er enghraifft, gellir cydbwyso marc isel ar dasg 1 â marc uwch ar dasg 2, ac mae dwy dasg yn golygu nad oes rhaid i ni gysylltu'r holl ofynion asesu ag un cyd-destun, a fyddai'n cyfyngu llawer mwy ar y dysgwr.

**7. Yr asesiad di-arholiad – a oes disgwyl cyfeiriadau ac a gaiff ymgeiswyr farc is am beidio â chynnwys cyfeiriadau?**

Oes, mae angen cynnwys cyfeiriadau i sicrhau nad yw ymgeiswyr yn llên-ladrata unrhyw ddeunyddiau gan neb arall.

**8. A fydd CBAC yn darparu mwy o ddeunyddiau enghreifftiol i athrawon eu defnyddio?**

Darparwyd cyfleoedd i asesu marcio ar gyfer pob uned yn ystod y DPP ac mae'r adnoddau wedi'u lleoli ar y wefan ddiogel. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ddeunyddiau

enghreifftiol ychwanegol a byddwn yn anfon cylchlythyr cyn diwedd tymor yr hydref i roi gwybod am ddyddiadau rhyddhau.

### 9. A oes unrhyw adnoddau ychwanegol/dysgu proffesiynol ar gael?

Byddwn yn darparu sesiynau holi ac ateb yn ddi-dâl yn y flwyddyn newydd.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar gyfer yr unedau UG yn ein ffolderi DPP blaenorol ar y wefan ddiogel, yn ogystal â'r adnoddau U2 penodol i unedau ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru (DIGC).

Cynhyrchwyd y rhestr hon i gynorthwyo canolfannau i lywio drwy'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/rhestr-adnoddau-uguwch-igcgp-a-lefel-3-igc-egwyddorion-a-chyd-destunau/

Mae'r digwyddiadau holi ac ateb hyn bellach ar gael i'w harchebu: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cyrsiau-a-digwyddiadau/

### 10. Uned 4, Tasg 1 – mae angen eglurder ynghylch ffurf briodol y cyflwyniad.

Mae'r dasg yn gofyn am gyflwyniad, ac rydym yn disgwyl i hwnnw fod ar fformat PowerPoint neu rywbeth tebyg.  Y mater pwysicaf yw sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi ymwneud â'r tasgau a'u bod yn bodloni'r meini prawf asesu a restrir yn y cynllun marcio.

### 11. Uned 4, Tasg 1 (c) – allech chi egluro oes angen i fy nysgwyr drafod POB mathau o bwrpas ac asesu ar gyfer Tasg 1 (c)?

Sut caiff eich gwaith ei asesu/ei farcio?  Tasg 1 (c)

City & Guilds | wjec cbac

| (c) | Esbonio'r mathau o asesu a'r pwrpas a sut gellir eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus i gwrdd ag anghenion sylfaenol a phenodol plant neu bobl ifanc. **[8 marc]** | |
|---|---|---|
| **Band** | **AA2:** | *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o naill ai Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion neu Ofal Plant.* |
| 4 | **7-8 marc**<br>• Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r canlynol:<br>  • y mathau a phwrpas yr asesu a ddefnyddir yn y lleoliad o ddewis<br>  • y pum elfen o asesu a chyfrifoldebau awdurdod lleol<br>  • esbonio'r mathau o asesu a'r pwrpas a sut gellir eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus i gwrdd ag anghenion sylfaenol a phenodol plant neu bobl ifanc.<br>• Dealltwriaeth hyderus o'r egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant a/neu bobl ifanc, a'u teuluoedd. | |
| 3 | **5-6 marc**<br>• Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am:<br>  • y mathau a phwrpas yr asesu a ddefnyddir yn y lleoliad o ddewis<br>  • y pum elfen o asesu a/neu gyfrifoldebau awdurdod lleol<br>  • sut gellir defnyddio'r asesiadau hynny i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a/neu barhaus i fodloni anghenion sylfaenol a/neu benodol plant a/neu bobl ifanc.<br>• Dealltwriaeth gadarn ar y cyfan  o'r prif egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant a/neu bobl ifanc, a'u teuluoedd. | |
| 2 | **3-4 marc**<br>• Esboniad sylfaenol sy'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>  • y mathau a/neu bwrpas yr asesu a ddefnyddir yn y lleoliad o ddewis<br>  • y pum elfen o asesu neu gyfrifoldebau awdurdod lleol<br>  • sut gellir defnyddio'r asesiadau hynny i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a/neu barhaus i fodloni anghenion plant a/neu bobl ifanc.<br>• Rhywfaint o ddealltwriaeth o'r prif egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant a/neu bobl ifanc. | |
| 1 | **1-2 farc**<br>• Esboniad cyfyngedig sy'n dangos ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>  • y mathau neu bwrpas yr asesu<br>  • sut gellir defnyddio'r asesiadau hynny i ddarparu cefnogaeth.<br>• Fawr o ddealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant a/neu bobl ifanc. | |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb. | |

**Mae angen rhannu Tasg 1 (c) yn ddwy ran:**

**<u>Rhan 1 – canolbwyntio ar y lleoliad dan sylw</u>**:

Ystyriwch y mathau o asesu a ddefnyddir yn y lleoliad dan sylw, a'u pwrpas.

**<u>Rhan 2 – canolbwyntio ar ofal cymdeithasol</u>**:

- **pum** elfen asesu a chyfrifoldebau awdurdod lleol
- sut gellir defnyddio'r asesiadau hynny i ddarparu cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus i fodloni anghenion sylfaenol a phenodol plant a/neu bobl ifanc
- egwyddorion sy'n sail i'r dull o asesu plant a/neu bobl ifanc a'u teuluoedd

Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n defnyddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 3 Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion).

Un awgrym i'r cwestiwn hwn fyddai ei wahanu'n ddwy ran.
Yr hyn sy'n allweddol i'r band uchaf yw gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r mathau o asesu a'u pwrpas, felly byddai disgwyl esboniad wedi'i ddatblygu.
O ran y cwestiwn, dylai ymgeiswyr nodi'r math o asesiad a ddefnyddir yn y lleoliad o'u dewis ac yna esbonio ei bwrpas, h.y. esbonio pam mae'r math hwnnw o asesiad yn cael ei

ddefnyddio a manteision y mathau hyn o asesiadau i roi cefnogaeth briodol, amserol a pharhaus; gallent hefyd sôn am feithrin gwydnwch a bodloni anghenion penodol.
Mae'n anodd rhoi nifer oherwydd gallai rhai ymgeiswyr restru amrediad heb esbonio – ond yn y band uchaf byddem yn disgwyl gweld esboniad manwl o dri math o leiaf (mae pedwar wedi'u rhestru yn y fanyleb).
O ran pa fathau o asesiad, mae wir yn dibynnu ar y lleoliad.
O ran sgyrsiau fel asesiad mewn cysylltiad â phlant, gellid cysylltu hyn â thechnegau plentyn-ganolog, e.e. defnyddio iaith briodol, defnyddio technegau i sgwrsio â phobl ifanc;   ond dylid annog ymgeiswyr i gysylltu hyn â'u lleoliad penodol eu hunain.

# Cofnodion holi ac ateb digwyddiad DPP byw 09/11/21

**1. Pryd fydd y gwerslyfrau U2 ar gael?**

Bydd y gwerslyfr ar gael i ganolfannau ei brynu yn y flwyddyn newydd. Mae ein tîm adnoddau hefyd yn cynnig disgownt i'r holl archebion a wneir yn ystod y mis cyntaf ar ôl ei gyhoeddi.

Mae penodau Unedau 3 a 5 hefyd nawr ar gael ***am ddim*** ar wefan DIGC: https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/tag-blwyddyn-2-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant-copïau-drafft-o-uned-3-ac-uned-5/

**2. Oes arweiniad ar gael i asesiad di-arholiad Uned 4, Tasg 2?**

Oes, mae'r arweiniad i asesiad di-arholiad Uned 4 ar gael ar ficrowefan Adnoddau CBAC: https://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rIid=3474 a bydd hefyd ar gael ar wefan DIGC cyn bo hir.

**3. Pryd bydd y trefnwyr gwybodaeth ar gael?**

Mae'r trefnwyr gwybodaeth newydd i gefnogi'r cymhwyster TAG wrthi'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd a chânt eu rhyddhau'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

**4. Dim ond un deunydd asesu enghreifftiol UG sydd ar gael, a fydd unrhyw bapurau eraill yn cael eu darparu?**

Mae'n arfer cyffredin rhyddhau un deunydd asesu enghreifftiol gyda phob manyleb newydd. Hefyd, mae gennym ddeunyddiau cefnogi sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer haf 2021 ar gael ar y wefan ddiogel i'ch cynorthwyo i asesu Uned 1. Mae cronfa enfawr o gyn-bapurau a chwestiynau perthnasol i'r hen gymhwyster hefyd allai gael eu defnyddio at ddibenion asesu.

**5. A fydd yr arholiad yn gofyn am ddamcaniaethwr penodol (e.e.Freud) ynteu i'r ymgeisydd ddewis un seicodynamig (Freud neu Bowlby) neu ymddygiadol er enghraifft?**

Mae'r deunydd asesu enghreifftiol yn rhoi rhagor o fanylion e.e. *C3. (b) Esboniwch sut gall damcaniaeth Vygotsky ein helpu i ddeall datblygiad gwybyddol plant.* Hynny yw, ydy, mae'n bosibl y bydd yn cyfeirio'n benodol at ddamcaniaethwr penodol.

**6. A ellir darparu astudiaethau achos enghreifftiol ar gyfer sut i gymhwyso'r damcaniaethau mewn lleoliadau gofal plant?**

Mae'r deunyddiau cefnogi sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer Uned 4 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i ddefnyddio astudiaeth achos i gynorthwyo i gyflwyno ac asesu'r uned hon.

**7. Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi ei gwneud hi'n anodd iawn ymweld â lleoliadau.Allwch chi roi cyngor ynghylch sut i drefnu ymweliadau?**

Mae canolfannau'n cael eu hannog i ddefnyddio dulliau cyfathrebu amgen, fel Teams/Zoom, ac ati. Mae galwad ffôn hefyd yn briodol os na all dysgwr gysylltu â lleoliad mewn unrhyw ffordd arall.

**8. Ar gyfer tasg gyntaf Uned 4, a fyddai unrhyw fformat cyflwyniad arall heblaw PowerPoint yn addas?A allent gynhyrchu taflen?**

Mae Tasg 1 Uned 4 yn gofyn am gyflwyniad. Felly, y dybiaeth gyffredinol yw mai PowerPoint fyddai hwn gan mai dyma'r prif fformat cyflwyniad a dderbynnir.

**9. A oes atebion enghreifftiol neu adnoddau ar gyfer Uned 4?**

Mae adnoddau Uned 4 ar gael ar wefan DIGC yn ogystal â'r deunyddiau o'r DPP hwn, a'r gwerslyfr a fydd ar gael yn y flwyddyn newydd. Mae enghreifftiad llawn ar gyfer yr uned hon hefyd.

**10. Rydym wedi gwneud llawer o gyfeirio, ond nid cyfeirio arddull Harvard. Oes ots am hynny?**

Na, cyfeirio arddull Harvard yw ein hoff ddewis, ond nid yw'n orfodol. Cyn belled â bod y dysgwr yn cydnabod ffynonellau, yn cyfeirio atynt, ac yn cynnwys llyfryddiaeth lawn, mae unrhyw arddull cyfeirio'n dderbyniol.

**11. Oes rhaid i ddisgyblion ddefnyddio unigolyn penodol ar gyfer Uned 4, Tasg 1 neu a yw'n generig ar gyfer lleoliad?**

Mae Uned 4, Tasg 1 yn datgan: *'Mae'r asesiad hwn wedi'i rannu'n ddwy dasg. Mae'r dasg gyntaf yn seiliedig ar leoliad gofal plant penodol o'ch dewis (yng Nghymru)'.* Felly, mae'n seiliedig ar y lleoliad, nid yr unigolyn – gall eich dysgwyr benderfynu canolbwyntio ar unigolyn yn y lleoliad hwnnw, ond nid yw'n ofyniad.

**12. Ble mae adnoddau ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn?**

Mae adnoddau newydd wedi'u cynhyrchu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth ac asesu. Rydym wedi cynhyrchu traciwr adnoddau hwylus â chysylltau wedi'u mewnblannu ynddo sydd ar gael yma.